# ARIANNU HEDDLU GOGLEDD CYMRU / FUNDING NORTH WALES POLICE 2020-2021

Fel Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru un o'm prif gyfrifoldebau yw gosod y praesept blynyddol, sef y darn hwnnw o gyllideb yr heddlu sy'n cael ei godi o drethi lleol. Mae lefel y praesept yn penderfynu cyfanswm y gyllideb sydd ar gael ar gyfer plismona yng Ngogledd Cymru, ac ni ellir gorbwysleisio ei bwysigrwydd o ran ansawdd, effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd plismona yng Ngogledd Cymru wrth wneud Gogledd Cymru'r lle mwyaf diogel yn y Deyrnas Unedig.

Rwyf yn hynod falch o waith a chyflawniadau fy swyddfa, swyddogion, staff a gwirfoddolwyr Heddlu Gogledd Cymru a'n partneriaid. Dros y flwyddyn ddiwethaf mae ein cyflawniadau'n cynnwys:

- **Cyflwyno'r Tîm Rhwystro, i dargedu grwpiau trosedd trefnedig;**
- **Gwnaethom gynyddu ein hadnoddau i ddelio â throsedd difrifol a threfnedig;**
- **Gwnaethom gynyddu ein hadnoddau i ddelio â cham-drin domestig;**
- **Gwnaethom gynyddu ein hadnoddau i reoli troseddwyr difrifol a threisgar;**
- **Gwnaethom gynyddu ymarferoldeb y tîm sy'n delio â chamfanteisio troseddol ar blant;**
- **Gwnaethom uwchraddio ein gallu o ran darpariaeth Taser;**
- **Gwnaethom ddarparu cyllid ar gyfer ymyrraeth gynnar, er mwyn bod o gymorth i blant ddelio â phrofiadau niweidiol;**
- **Rydym eisoes wedi recriwtio 18 o swyddogion allan o'r 62 a gafodd eu neilltuo ar gyfer Gogledd Cymru fel rhan 1 o Ymgyrch Uplift (cyhoeddiad y llywodraeth i gael cynnydd o 20,000 yn y nifer o swyddogion heddlu dros y tair blynedd nesaf).**

Ers 2011 mae Heddlu Gogledd Cymru wedi gorfod gwneud toriadau o dros £32 miliwn oherwydd llymdra. Mae lefel sylfaenol y grant plismona y byddem yn ei derbyn yn 2020-2021 yr un peth yn nhermau arian parod ag yr oedd yn 2019-2020, sy'n gyfatebol i doriad termau real o dros £2 miliwn; bydd y cyllid ychwanegol y byddem yn ei dderbyn yn angenrheidiol er mwyn ariannu Ymgyrch Uplift.

Wrth benderfynu ar fy nghynnydd yn y dreth gyngor am y flwyddyn, ymgynghorais gyda'r cyhoedd a chefais drafodaethau manwl gyda'r Prif Gwnstabl a'i uwch dîm. Cadarnhaodd y Prif Gwnstabl y bydd cynnydd o 4.5% yn y dreth gyngor yn sicrhau bod plismona gweithredol yn parhau'n gynaliadwy yn dilyn degawd o doriadau parhaus, a bydd yn cynorthwyo'r cyflawniad gweithredol gorau posibl o blismona yng Ngogledd Cymru.

Credaf fod y cynnydd hwn yn taro'r cydbwysedd cywir rhwng fforddiadwyedd ar gyfer talwyr y dreth gyngor a sicrhau bod gan Heddlu Gogledd Cymru ddigon o arian i barhau i fod yn heddlu ardderchog, effeithlon ac effeithiol.

**Arfon Jones**
Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru











As the Police and Crime Commissioner for North Wales one of my main responsibilities is to set the annual precept, being that part of the police budget which is raised from local taxes. The level of the precept determines the total budget available for policing in North Wales, and its importance to the quality, effectiveness and efficiency of policing in North Wales cannot be overstated, in making North Wales the safest place in the United Kingdom.

I am extremely proud of the work and achievement of my office, the officers, staff and volunteers of North Wales Police and our partners. In the last year our achievements include:

- **The introduction of the Intercept Team, to target organised crime groups;**
- **We increased our resources to deal with serious and organised crime;**
- **We increased our resources to deal with domestic abuse;**
- **We increased our resources to manage serious and violent offenders;**
- **We increased the functionality of the team dealing with child criminal exploitation;**
- **We upgraded our Taser capability;**
- **We provided funding for early intervention, to help children deal with adverse experiences;**
- **We have already recruited 18 officers of the 62 allocated to North Wales in phase I of Operation Uplift (the government's announcement to increase police officer numbers by 20,000 in the next three years)**

Since 2011, North Wales Police has been forced to make savings of over £32million due to austerity. The base level of policing grant we will receive in 2020-2021 is the same in cash terms as in 2019-2020, which is the equivalent of a real-terms cut of over £2million; the additional funding we will receive will be required in order to fund Operation Uplift.

In deciding my council tax increase for the year I consulted with the public and had detailed discussions with the Chief Constable and his senior team. The Chief Constable confirmed that a council tax increase of 4.5% will ensure that operational policing remains sustainable following a decade of continued cuts, and will support the best possible operational delivery of policing in North Wales.

I believe this increase strikes the right balance between affordability for council tax payers and ensuring North Wales Police has enough money to continue to be an excellent, efficient and effective force.

**Arfon Jones**
North Wales Police and Crime Commissioner

**Yn y daflen hon cewch ddadansoddiad sy'n dangos faint o'ch treth cyngor sy'n cael ei wario ar blismona a nodir yn fras ble mae eich arian yn mynd. Am wybodaeth bellach ynglŷn â chyllideb yr heddlu, ewch i'm gwefan: www.nwpcc.cymru**

**BETH YW EICH BARN CHI?**
Mae'r Comisiynydd yn atebol i'r bobl ledled Gogledd Cymru ac mae bob amser yn awyddus i glywed barn pawb am faterion yn gysylltiedig â'r heddlu a throsedd.

Os hoffech ddweud eich barn wrth y Comisiynydd, ffoniwch **01492 805486** neu e-bostiwch: **OPCC@nthwales.pnn.police.uk.**

Gallwch hefyd fynd i'n gwefan: **www.nwpcc.cymru**

**SUT I GYSYLLTU Â HEDDLU GOGLEDD CYMRU**
Gallwch gysylltu â heddweision drwy wefan Heddlu Gogledd Cymru: **www.north-wales.police.uk**

Neu gallwch ffonio'r rhif difrys **101** neu **0300 330 0101**. Mewn argyfwng yn unig, ffoniwch **999**

**PRINT BRAS**
Mae'r daflen hon ar gael mewn print bras. I gael copi am ddim, ffoniwch **01492 805486**.

**This leaflet gives a breakdown of how much of your council tax is spent on policing and an indication of where your money goes. For more information about the police budget, please visit my website: www.nwpcc.cymru**

**WHAT DO YOU THINK?**
The Commissioner is accountable to people across North Wales and is always eager to hear what they think about police and crime matters.

If you want to share your views with the Commissioner, please contact **01492 805486** or email **OPCC@nthwales.pnn.police.uk.**

Alternatively, visit our website: **www.nwpcc.cymru**

**HOW TO CONTACT NORTH WALES POLICE**
You can contact officers through the North Wales Police website: **www.north-wales.police.uk**

Alternatively, you can ring the non-emergency number **101** or **0300 330 0101**. For emergencies only, call **999**.

**LARGE PRINT**
This leaflet is available in large print. For a free copy, simply call **01492 805486**.

Ffôn / Tel: 01492 805486
@NorthWalesPCC
Ebost / E.mail: OPCC@nthwales.pnn.police.uk

SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU
OFFICE OF THE POLICE & CRIME COMMISSIONER NORTH WALES

HEDDLU GOGLEDD CYMRU
NORTH WALES POLICE

PAN FYDD YN LLAI PWYSIG NA 999
101
WHEN IT'S LESS URGENT THAN 999

# CYLLIDEB YR HEDDLU 2020-2021 Ble mae eich arian yn mynd?
# POLICE BUDGET 2020-2021 Where does your money go?

| | 2019-20 £'000 | 2020-21 £'000 | Fesul/per Band D* £ |
|---|---|---|---|
| **GWARIANT / EXPENDITURE** | | | |
| Cyflogau - Swyddogion Heddlu<br>Pay - Police Officers | 80,328 | 85,508 | 292.38 |
| Cyflogau - Staff yr Heddlu<br>Pay - Police Staff | 45,913 | 47,783 | 163.39 |
| Pensiynau<br>Pensions | 3,305 | 3,384 | 11.57 |
| Costau Eraill Gweithwyr<br>Other Employee Costs | 5,155 | 5,669 | 19.38 |
| Costau Rhedeg Eraill<br>Other Running Costs | 35,822 | 39,312 | 134.42 |
| Cyfraniad i Wariant Cyfalaf<br>Contribution to Capital Expenditure | 2,607 | 3,202 | 10.95 |
| Gwariant Refeniw Gros<br>Gross Revenue Expenditure | 173,130 | 184,858 | 632.09 |
| Llai Incwm<br>Less Income | 18,866 | 21,153 | 72.33 |
| **Gofynion y Gyllideb<br>Budget Requirement** | **154,264** | **163,705** | **559.76** |
| **ARIENNIR DRWY / FINANCED BY:** | | | |
| Grant Penodol yr Heddlu<br>Specific Police Grant | 40,896 | 44,106 | 150.81 |
| Grant Llawr<br>Floor Grant | 9,842 | 11,995 | 41.01 |
| Grant Cymorth Refeniw<br>Revenue Support Grant | 10,655 | 9,952 | 34.03 |
| Cyfran o Drethi Annomestig<br>Share of Non-Domestic Rates | 11,841 | 12,662 | 43.30 |
| | **73,234** | **78,715** | **269.15** |
| Treth y Cyngor<br>Council Tax | 81,030 | 84,990 | 290.61 |
| **Cyfanswm y Cyllid<br>Total Finance** | **154,264** | **163,705** | **559.76** |

## Cyllideb Gyfalaf y Comisiynydd 2020-2021

| **Gwariant Arfaethedig** | **£'000** |
|---|---|
| Cerbydau ac Offer | 2,231 |
| Gwaith Adeiladu | 4,529 |
| Offer Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu | 3,146 |
| | 9,906 |
| **Dull o Ariannu** | **£'000** |
| Grantiau Cyfalaf | 123 |
| Benthyca | 5,607 |
| Derbynebau Cyfalaf | 155 |
| Cyfraniad Refeniw a Balansau | 4,021 |
| | 9,906 |

## The Commissioner's Capital Budget 2020-2021

| **Proposed Expenditure** | **£'000** |
|---|---|
| Vehicles and Equipment | 2,231 |
| Building Works | 4,529 |
| Information Technology and Communication Equipment | 3,146 |
| | 9,906 |
| **Method of Financing** | **£'000** |
| Capital Grants | 123 |
| Borrowing | 5,607 |
| Capital Receipts | 155 |
| Revenue Contribution and Balances | 4,021 |
| | 9,906 |

## Faint o'ch arian treth cyngor sy'n cael ei wario ar blismona?

Mae naw band treth cyngor yng Ngogledd Cymru, sydd wedi'u seilio ar werth cyfalaf yr eiddo yn 2003.

*Band D yw'r dull Cenedlaethol o gymharu lefelau treth. Dim ond £290.61 o fil treth cyngor Band D sy'n cael ei glustnodi ar gyfer arainnu Gwasanaeth yr Heddlu yng Ngogledd Cymru, fel y cyntunwyd gan Gomsiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.

Felly, yn dibynnu ar Fand eich eiddo chi, dyma faint o'ch bil treth cyngor fydd yn cael ei roi tuag at wasanaeth yr heddlu yng Ngogledd Cymru:

## How much of your council tax is spent on policing?

There are nine council tax bands in North Wales, based on the capital value of the property in 2003.

*Band D is used for National comparisons of tax levels. From a Band D Council Tax bill, only £290.61 is allocated to funding the Police service of North Wales, as agreed by the Police and Crime Commissioner for North Wales.

Therefore, depending on your property band, the amount from your Council tax bill which funds the Police Service of North Wales is as follows:

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| BAND A | £193.74 | BAND B | £226.03 | BAND C | £258.32 | BAND D | £290.61 | BAND E | £355.19 |
| BAND F | £419.77 | BAND G | £484.35 | BAND H | £581.22 | BAND I | £678.09 | | |

## Cymharu lefel y Gyllideb Refeniw â chanllawiau Llywodraeth Cymru

Gan ddefnyddio fformiwla a luniwyd ar gyfer pob Heddlu yng Nghymru a Lloegr, mae Llywodraeth Cymru a'r Swyddfa Gartref wedi cyflwyno "safon gwariant" a elwir yn Asesiad Gwariant Safonol (AGS) a Grant yr Heddlu o £132.091m ar gyfer 2020-2021. Dyma yw asesiad y Llywodraeth o'r hyn y bydd angen i'r Comisiynydd ei wario er mwyn darapru'r un lefel o wasanaeth a chomisiynwyr eraill yng Nghymru os ydynt hwythau hefyd yn gwario yn unol â chyfanswm eu AGS a'u Grant Heddlu eu hunain.

Mae gan y Comisiynydd hawl i wario mwy na chyfanswm yr AGS a'r Grant Heddlu, gyda'r gwahaniaeth yn cael ei ariannu gan y Treth Cyngor neu o'r Cronfeydd Wrth Gefn. Mae'r Comisiynydd wedi penderfynu ar ofyniad Cyllideb o £163.705m.

## Comparison of the level of the Revenue Budget with the Welsh Government's guidance


Using a formula developed for all Police Forces in England and Wales, the Welsh Government and the Home Office have issued a "spending norm" known as the Standard Spending Assessment (SSA) plus Police Grant of £132.091m for 2020-2021. This is the Government's assessment of the Commissioner's need to spend in order to provide the same level of service as other commissioners in Wales if they also spend at the level of their own SSA plus Police Grant.

The Commissioner is allowed to spend in excess of the SSA/Police grant total, with the excess being funded from the Council Tax or Reserves. The Commissioner has set a Budget requirement of £163.705m.


## 1. O ble mae'r arian yn dod?
## 2. Beth ydych yn ei gael am eich arian?

## 1. Where does the money come from?
## 2. What do you get for your money?

1.




2.




**Amcangyfrif o gronfeydd ariannol y Comisiynydd ar ddiwedd y flwyddyn ariannol**
**The Commissioner's estimated financial reserves at the end of the financial year**

| 2019-2020 | 2020-2021 |
|---|---|
| £19.563 miliwn / million | £17.050 miliwn / million |

## Lle allwch chi gael mwy o fanylion?


**Cysylltwch â:**
Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru
Glan y Don, Bae Colwyn LL29 8AW
**Ffôn:** 01492 805486
**E-bost:** OPCC@nthwales.pnn.police.uk


## Where can you get more details?


**Please contact:**
Office of the Police & Crime Commissioner North Wales
Glan y Don, Colwyn Bay LL29 8AW
**Tel:** 01492 805486
**Email:** OPCC@nthwales.pnn.police.uk